**Canllawiau ar gyfer Teithiau Preswyl Clwb Mynydda Cymru**

1. Croesawir cynigion gan aelodau i drefnu Taith Breswyl, h.y. unrhyw daith sy'n golygu llogi llefydd aros dros nos.

2. Dylai unrhyw un sy'n awyddus i drefnu taith o'r fath gysylltu â'r Ysgrifennydd Gweithgareddau er mwyn penderfynu ar ddyddiadau hwylus a lleoliad addas.

3. Os nad oes cytundeb rhwng yr Ysgrifennydd Gweithgareddau â'r trefnydd, dylid gofyn am arweiniad y Cadeirydd.

4. Os nad oes cytundeb wedi derbyn barn y Cadeirydd, dylid trafod y mater mewn pwyllgor os yn bosib. Os oes brys, bydd hawl gan y Cadeirydd i benderfynu a fydd y clwb yn gallu cynnig y daith fel rhan o raglen y clwb.

5. Ni ddylai fod colled ariannol i'r clwb o ganlyniad i Daith Breswyl. Er hynny, mae elfen o risg ynghlwm â threfnu taith o'r fath gan fod angen, mwy neu lai'n ddieithriad, llogi llefydd aros a thalu blaendal cyn gwybod faint sydd am ddod.

6. Rhaid i drefnydd Taith Breswyl drafod ymlaen llaw efo'r Ysgrifennydd Gweithgareddau, y Cadeirydd a'r Trysorydd cyn penderfynu ar faint o lefydd i'w harchebu a faint o dâl i'w godi.

7. Rhaid cyflwyno llythyr gwahoddiad, ffurflen archebu neu unrhyw ddogfenaeth arall i sylw'r Cadeirydd, yr Ysgrifennydd Gweithgareddau a'r Trysorydd er mwyn derbyn eu cyd-syniad cyn i unrhyw wybodaeth gael ei ddosbarthu i aelodau.

6. Dylid gosod dyddiad clir ar gyfer derbyn ceisiadau am le ar y daith ac ar gyfer derbyn taliad am y daith.

7. Os yw cost y daith yn ddim mwy na £150, gofynnir am dâl llawn pan yn archebu lle. Ni ellir cadw lle i unrhyw un os nad yw'r tâl priodol yn cael ei dderbyn.

8. Os yw cost y daith dros £150, ystyrir codi blaen-dâl os yw hynny'n ymarferol. Penderfynir ar hyn gan y Cadeirydd, Ysgrifennydd Gweithgareddau a'r Trysorydd, mewn ymgynghoriad â'r trefnydd.

9. Dylid ychwanegu i fyny at 10% at gost dybiedig y daith fel bod arian wrth gefn.

10. Unwaith i gais am le ar daith gael ei dderbyn gan y clwb, NID OES GAN AELOD HAWL I DDERBYN AD-DALIAD AM UNRHYW RESWM, ar wahân i'r amgylchiad canlynol:

* os oes rhywun arall ar gael i lenwi'r bwlch, gellid cynnig ad-daliad llawn.

11. Dylid tynnu sylw'r rhai sy'n dod ar Daith Breswyl, yn arbennig rhai costus, at yr angen i sicrhau yswiriant personol rhag ofn y bydd rhaid iddynt dynnu'n ôl.

12. Rhaid i bawb sy'n mynychu Taith Breswyl fod yn aelod o Glwb Mynydda Cymru.

*Cadarnhawyd gan Bwyllgor Clwb Mynydda Cymru, 14 Ionawr 2019*